

DYDD MAWRTH

Nod y wers – Amcangyfri a mesur cynhwysedd

ADALW GWYBODAETH

1) Pa fesuriadau rydyn ni'n eu defnyddio i fesur cyfaint

Mililitrau a litrau

2) Beth yw'r mesuriad gorau i fesur potel o laeth

Litrau

3) Beth yw'r mesuriad gorau i fesur tiwb o past dannedd

mililitrau

4) Beth yw'r mesuriad gorau i fesur can o bop

mililitrau

CWESTIYNAU YCHWANEGOL

1) Pa fesuriad ydyn ni'n ei wybod am fesur cynhwysedd hyd yn hyn?

2) Ydych chi wedi clywed am unrhyw ffyrdd eraill o fesur cynhwysedd

- Peint a galwyn

SPLAT!

CEGOLCH

500ml



IL

CRONFA DDŴR

Litrau



Mililitrau

CAN

330ml



4L

PAENT

Litrau



Mililitrau

SOS COCH


800ml



8L

DŴR

500ml



50L

GLANWEITHYDD DWYLO

500ml



5L

PETROL

Litrau



Mililitrau

SGWASH

Litrau



Mililitrau

POTEL O BOP

Mililitrau



Litrau

SUDD AFAL

200ml



10L

LLAETH

Mililitrau



Litrau

PAST DANNEDD

Mililitrau



Litrau

DYFYNIAD FANILA

35ml



5L

PWLL NOFIO

Mililitrau



Litrau

Nod y wers: Amcangyfri a mesur cynhwysedd

Eich tasg: edrychwch yn ofalus ar y gwrthrychau.Amcangyfrifwch y cynhwysedd cywir.

Darllenwch y cynhwysedd sydd ar y cynhwysydd. Oeddech chi'n gywir?

Her: ceisiwch drosi'r unied i uned arall (e.e. 1,500ml = 1.5 litr)

[illegible]

I GLOI...

- 1) 1000ml mewn litrau
- 2) 15,000ml mewn litrau
- 3.4 litr mewn mililitrau

Cynllun Gwers

Blwyddyn: Blwyddyn chewch	Maes Dysgu a Phrofiad: Mathemateg a rhifedd	Nod y wers: Galluogi'r disgyblion i amcangyfrif a mesur cynhwysedd yn gywir gan ddefnyddio unedau mesur safonol.
Gwybodaeth flaenorol: Yn y ddwy wers flaenorol ar bwnc hon, mae'r disgyblion wedi dysgu am fililitrau a litrau, gan ymarfer mesur hylifau gan ddefnyddio unedau hyn.	Geirfa allweddol: - Yn ystod y wers, bydd y disgyblion yn defnyddio geirfa allweddol fel: - Unedau - Trosi - Cynhwysedd - Amcangyfrif - Mesur - Mililitrau a litrau	Gweithgareddau: - Gweithgaredd cyflwyno gyda chwestiynau adalw a gwybodaeth flaenorol - Chwarae gem 'SPLAT' i adnabod unedau a dealltwriaeth - Trafodaeth dosbarth am boteli gyda chynhwysedd gwahanol - Tasg fesur cynhwysedd potel, modelu cwestiwn a datrys - Grwpiau'n mesur cynhwysedd a thrafod y gwahaniaethau - Asesiad ffurfiannol gyda thocyn gadael - Ailadrodd trosiad mililitrau i litrau
Adnoddau: - Poteli gwag - Cwestiynau wedi'i pharatoi ar gyfer y gêm SPLAT - Taflenni gwaith - Tocynnau gadael	Ffocws iaith: Bydd y disgyblion yn dysgu sut i ddisgrifio'r prosesau mathemategol wrth fesur cynhwysedd gan ddefnyddio'r derminoleg briodol. Byddant yn cael cyfle i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio geirfa allweddol wrth drafod ac ateb cwestiynau.	

GWERTHUSIAD

Prif ffocws y wers hon oedd datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o fesur a chreu amcangyfrifon o gapasiti cynhwysydd, gan sefydlu'r gwahaniaeth rhwng defnyddio mililitrau a litrau. Cyflwynwyd y wers i'r grŵp Blwyddyn 6 fwy abl a thalentog. Adeiladwyd y wybodaeth flaenorol ar gyfer y wers hon gyda'r ddwy wers ddiwethaf lle datblygodd y disgyblion eu dealltwriaeth o wahanol fathau o fesuriadau. Mae hyn yn cysylltu â damcaniaeth Bruner (1960) o'r cwricwlwm troellog, sy'n pwysleisio pwysigrwydd o ailgyfeirio ac ehangu ar gysyniadau allweddol drwy gydol y cwricwlwm, er mwyn i'r disgyblion ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc (University of Detroit, d.d.).

O fewn y wers, cafodd y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu ymarferol mewn cyd-destun bywyd go iawn. Roedd y cyd-destun bywyd go iawn hwn yn cynnwys defnyddio cynwysyddion y byddent yn dod ar eu traws yn eu bywyd bob dydd. Yn ôl John Dewey, mae defnyddio dysgu ymarferol a phrofiadau bywyd go iawn mewn addysg yn cefnogi datblygiad addysgol disgyblion (Main, 2023). Yn ystod y wers, defnyddiwyd amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu, gan gynnwys cwestiynau agored, tasgau grŵp, tocynnau ymadael, a'r gêm SPLAT. Yn ôl William a Black (1998), mae defnyddio ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn galluogi'r athrawon i gefnogi eu disgyblion, tra hefyd yn galluogi'r disgyblion i fyfyr ar eu cynnydd eu hunain (Jones, 2022).

Rwy'n credu bod gan y wers amcan clir ac oedd ganddi botensial cryf ar gyfer canlyniadau llwyddiannus. Fe wnaeth ganiatáu i'r disgyblion ddatblygu eu llythrennedd mathemategol y tu hwnt i ymarferion ysgrifenedig. Trwy gyflwyno geirfa allweddol drwy strategaethau gweithgar, roedd y disgyblion yn gallu dyfnhau eu dealltwriaeth o'r pwnc. Rwy'n credu y gallaf, yn y dyfodol, wella'r profiad addysgol ymhellach drwy ymgorffori amrywiaeth ehangach o ddulliau, megis defnyddio dysgu myfyriol i ganiatáu i'r disgyblion werthuso eu camgymeriadau eu hunain a dysgu i gywiro'u hatebion yn annibynnol. Yn y wers, roedd rhaid i mi wahaniaethu'r daflen waith tair waith gwahanol er mwyn ymgymryd â phob un o'r disgyblion.

I grynhoi, rwy'n credu bod y wers yn llwyddiannus o ran budd addysgol drwy ddyfnhau gwybodaeth y disgyblion am y pwnc ac wrth ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau yn effeithiol i asesu ac ehangu eu dysgu. Trwy barhau i ddefnyddio'r strategaethau hyn, rwy'n credu y bydd datblygiad y disgyblion yn parhau i symud ymlaen, gan eu galluogi i ddod yn fathemategwyr hyderus a chymwys.

RHESTR GYFEIRIO

- University of Detroit. (d.d).What is spiral curriculum <https://eng-sci.udmercy.edu/academics/engineering/electrical-computer/spiral-curriculum.php#:~:text=Spiral%20curriculum%2C%20a%20concept%20widely,complexity%2C%20or%20in%20different%20applications>.
- Main, P. (2023). John Dewey's Theory <https://www.structural-learning.com/post/john-deweys-theory>
- Jones, K. (2022).A summary of Evidence based formative assessment strategies <https://evidencebased.education/a-summary-of-evidence-based-formative-assessment-strategies/>